

Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg:
Ward Llynfi, Ysbyty
Cymunedol Maesteg a
Ward y Gorllewin, Ysbyty
Gorseinon**

Dyddiad arolygu: 27 a 28 Medi 2016

Dyddiad cyhoeddi: 29 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	5
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau.....	9
	Ansawdd Profiad y Claf	9
	Cyflwyno Gofal Diogel ac Effeithiol.....	14
	Ansawdd y Rheolaeth a'r Arweinyddiaeth	26
6.	Camau Nesaf	30
	Atodiad A.....	31

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd AGIC arolygiad dirybudd o'r ddau ysbyty cymunedol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 27 a 28 Medi 2016. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

Ysbyty Cymunedol Maesteg

- Ward Llynfi

Ysbyty Gorseinon

- Ward y Gorllewin

Prif bwrpas ein harolygiad o Ward y Gorllewin oedd olrhain cynnydd y bwrdd iechyd yn y gwaith o fynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol ers ein harolygiad diwethaf. Roedd ein harolygiad o Ward Llynfi yn ehangach ei gwmpas.

2. Methodoleg

Mae amrywiaeth o ddulliau a methodolegau ar gael i ni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, ac rydym yn dewis y rhai mwyaf priodol yn ôl amrywiaeth ac ystod y gwasanaethau yr ydym yn bwriadu eu harolygu. Mae arolygiadau trylwyr o un ward yn caniatáu i ni gymryd golwg hynod fanwl ar agwedd fach ar ddarpariaeth o ofal iechyd, tra bod y sylw cynyddol a gynigir drwy ymweld â nifer fwy o wardiau ac adrannau'n ein galluogi i gynnal asesiad mwy cadarn o themâu a phroblemau o ran y bwrdd iechyd dan sylw. Yn y ddau achos, rhoddir

adborth i'r gwasanaethau iechyd mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1



Mae arolygiadau o ysbytai'r GIG yn ddirybudd, ac rydym yn arolygu ac adrodd mewn perthynas â thair thema:

- **Ansawdd Profiad y Claf:**
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol:**
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth:**
Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm, ar gyfer yr arolygiad, yn cynnwys tri rheolwr arolygu (roedd un ohonynt yn arwain yr arolygiad), dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd lleyg.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau, a chyfweliadau gyda staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau gydag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd
- Ymatebion mewn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
- Ymatebion mewn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n

gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

3. **Cyd-destun**

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg ar 1af Hydref 2009 o ganlyniad i ad-drefniant yn y GIG yng Nghymru ac mae'n cynnwys Byrddau Iechyd Lleol blaenorol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr yn ogystal ag Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am boblogaeth o oddeutu 500,000 o bobl.

Mae gan y Bwrdd Iechyd bedwar ysbyty aciwt sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau; sef Ysbytai Singleton a Morryston yn Abertawe, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mhort Talbot ac Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae nifer o ysbytai cymunedol llai a chanolfannau adnoddau gofal sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau clinigol y tu allan i'r pedwar prif ysbyty aciwt.

Ysbytai Maesteg a Gorseinon

Mae Ysbytai Maesteg a Gorseinon yn darparu gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau ysbyty sy'n cynnwys ysbyty dydd, adferiad, gofal cleifion allanol a phreswyl.

Mae Ward Llynfi yn Ysbyty Cymunedol Maesteg yn uned 20 gwely ac mae Ward y Gorllewin yn Ysbyty Gorseinon yn uned 44 gwely. Mae pob ward yn rhoi gofal adferol a meddygol parhaus i gleifion a drosglwyddir o ysbytai cyffredinol dosbarth lleol ardal Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg.

4. Crynodeb

Roedd sylwadau a wnaed gan gleifion yn Ward Llynfi a Ward y Gorllewin yn cadarnhau eu bod yn fodlon â'r gofal a ddarparwyd gan dimau'r staff. Gwelsom aelodau o staff yn bod yn gwrtais gyda'r cleifion a'u trin gyda pharch a chydymdeimlad. Roedd y bwrdd iechyd wedi sefydlu trefniadau ar gyfer cleifion a/neu eu gofalwyr i roi adborth ar eu profiadau ac i fynegi pryderon (cwynion) yn glŷn â gofal a thriniaeth cleifion.

Gwelsom fod timau'r ddwy ward yn ymroddedig i roi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom fod lle yn brin yn Ward y Gorllewin a bod hyn yn achosi anawsterau i aelodau o staff a oedd yn defnyddio offer symud a thrin. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi manylion i ni yn glŷn â'r ffordd y bydd hyn yn cael ei drin.

Roedd offer arbenigol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio i atal y cleifion rhag cael briwiau pwyso ac i atal y cleifion rhag cwmpo.

Roedd y ddwy ward yn lân ac roedd trefniadau ar waith i atal croes-heintiad. Roedd ymdrechion wedi eu gwneud i gadw'r wardiau'n daclus ond roedd yn amlwg bod diffyg lle i storio offer y ward.

Gwelsom fod angen gwelliant mewn perthynas ag agweddau o reoli meddyginiaethau. Gwelsom hefyd bod angen gwelliant ar unwaith mewn cysylltiad â'r defnydd o fandiau arddwrn adnabod cleifion. Rhoddwyd gwybod i'r staff am ein canfyddiadau a gofynnwyd i'r bwrdd iechyd ddarparu cynllun gwella ar unwaith yn unol â phroses sicrwydd uniongyrchol AGIC. Roedd cynllun y bwrdd iechyd yn rhoi digon o sicrwydd i AGIC bod camau wedi eu cymryd i hybu diogelwch y cleifion.

Gwelsom fod y cleifion wedi eu hasesu gan y staff fel bod eu hanghenion gofal yn cael eu hadnabod a bod y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hybu eu lles a'u diogelwch. Er bod y staff yn disgrifio gofal unigol oedd yn canolbwyntio ar y claf, nid oedd y cofnodion gofal a welsom yn dangos hyn yn llwyr.

Roedd strwythur rheoli gyda llinellau dirprwyo ac adrodd ar waith yn y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Mynegodd y staff uwch bod trefniadau newydd ar fin cael eu cyflwyno i wasanaethau ysbytai cymunedol fel rhan o newidiadau rheoli ehangach o fewn y bwrdd iechyd. Dangosodd y trafodaethau gyda'r staff uwch eu bod yn teimlo y byddai'r trefniadau newydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y gwasanaethau a ddarperir yn y ddau ysbyty. O ystyried y gwahaniaethau rhwng y ddwy ward, rydym wedi gofyn bod y bwrdd iechyd hefyd yn adolygu'r trefniadau rheoli yn Ward y Gorllewin er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol.

Gwelsom dimau o staff cyfeillgar ond proffesiynol a oedd yn dangos ymroddiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Gallai'r staff ddisgrifio'u swyddogaethau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus ynglŷn ag anghenion gofal y cleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.

Cadarnhaodd y staff bod modd iddynt fanteisio ar hyfforddiant a bod hyn wedi bod yn gymorth iddynt wneud eu swyddi. Gwelsom fod angen mwy o gymorth i reolwyr y ward fel bod modd cynnal arfarniadau staff.

Arolygiadau blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru arolygiad urddas a gofal hanfodol dirybudd yn Ward y Gorllewin, Ysbyty Gorseinon ym mis Medi 2014¹. Mae adroddiad ar ein canfyddiadau ar gael ar wefan AGIC (www.hiw.org.uk)

Yn ein harolygiad blaenorol, gwelsom fod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Diogelu data cleifion
- Gwella'r arwyddion i'r tai bach a'r manau ymolchi
- Cleifion yn derbyn cymorth prydlon
- Rhoi hyfforddiant penodol i staff y ward ar ofal i bobl hŷn
- Gofyn am gyngor prydlon ar faterion diogelu
- Ansawdd y cofnodion gofal

Roedd yn braf gweld bod yr arwyddion wedi eu gwella a bod ymdrechion wedi eu gwneud i roi hyfforddiant penodol i staff ar ofal i bobl hŷn. Gwelsom hefyd bod y trefniadau sy'n gysylltiedig â diogelu wedi gwella.

Er bod ymdrechion wedi eu gwneud i ddiogelu gwybodaeth cleifion, gellid gwella'r maes hwn ymhellach.

Roedd sylwadau gan gleifion yn dangos bod amseroldeb y staff wrth ymateb i geisiadau hefyd yn broblem yn Ward y Gorllewin. Dywedodd y cleifion eu bod yn teimlo bod yr oedi'n digwydd am fod yr aelodau o staff yn brysur.

¹ Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol AGIC (Dirybudd), Bwrdd Iechyd Prifysgol Arbertawe Bro Morgannwg, Ysbyty Gorseinon, Ward y Gorllewin 17 a 18 Medi 2014.
<http://hiw.org.uk/docs/hiw/inspectionreports/141217gorseinonen.pdf>

Gwelsom hefyd fod angen mwy o welliant mewn cysylltiad ag ansawdd cofnodion gofal cleifion.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Roedd sylwadau a wnaed gan gleifion yn Ward Llynfi a Ward y Gorllewin yn cadarnhau eu bod yn fodlon gyda'r gofal a ddarparwyd gan y timau staff. Gwelsom yr aelodau o staff yn bod yn gwrtais gyda'r cleifion ac yn eu trin gyda parch a thrugaredd. Roedd y bwrdd iechyd wedi rhoi trefniadau ar waith i gleifion a/neu eu gofalmwr i roi adborth ar eu profiadau ac i fynegi pryderon (cwynion) ynglŷn â gofal a thriniaeth cleifion.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwahoddwyd rhieni a/neu eu cynrychiolwyr yn y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy i gyflwyno sylwadau ynglŷn â staff yr ysbyty, yr amgylchedd a'r gofal a dderbyniwyd. Gwahoddwyd cleifion a/neu eu cynrychiolwyr i gyflwyno eu sylwadau drwy sgyrsiau wyneb i wyneb gyda'r tîm arolygu a/neu drwy lenwi holiadur AGIC. Cafodd cyfanswm o 13 o holiaduron eu llenwi a'u dychwelyd i AGIC.

Pan ofynnwyd iddynt roi sgôr i'r gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi ei derbyn, rhoddodd y cleifion sgôr o rhwng saith a deg allan o ddeg. Rhoddodd y rhan fwyaf o gleifion yn Ward Llynfi (Ysbyty Gymunedol Maesteg) a Ward y Gorllewin (Ysbyty Gorseinon) sgôr o ddeg allan o ddeg.

Gofal gydag Urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle mae pawb yn cael ei drin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd ac sy'n cydnabod ac yn diwallu anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion. (Safon 4.1)

Gwelwyd bod cleifion yn cael eu trin gyda urddas, parch a thrugaredd gan y timau staff.

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd gan gleifion yn dangos bod y staff, ar y cyfan, wedi bod yn gwrtais gyda hwy a'u teuluoedd/frindiau. Roedd y sylwadau hefyd yn dangos bod yr aelodau o staff yn defnyddio'r enwau sy'n well gan y cleifion i'w cyfarch.

Roedd y canlynol ymysg y sylwadau a dderbyniwyd:

'Mae'r staff bob amser yn gynorthwyol ac mae ganddynt amser i wrando bob amser. Pan fyddaf yn teimlo'n isel, ac mae hynny'n helpu'n fawr.'

'Yn dda iawn gan amlaf, ond canran fechan ddim mor gynorthwyol.'

'Gwasanaeth ardderchog.'

'Allwn i ddim gofyn am well staff.'

Gwelsom hefyd y timau staff ar y ddwy ward yn bod yn garedig ac yn barchus gyda'r cleifion a'u hymwelwyr. Gwelsom yr aelodau o staff yn gwneud ymdrech i amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth gydag anghenion gofal personol. Roedd sylwadau gan gleifion yn cadarnhau bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd bod y staff yn eu cynorthwyo mewn ffordd oedd yn golygu nad oeddent yn teimlo'n chwithig wrth ddefnyddio'r tŷ bach.

Roedd yn ymddangos bod cleifion ar y ddwy ward yn derbyn gofal da ac yn gyfforddus. Roedd sylwadau gan y cleifion yn cadarnhau hyn hefyd.

Pan holwyd ynglŷn â glendid a thaclusrwydd y wardiau, dywedodd pob claf a roddodd sylwadau inni eu bod yn teimlo bod y wardiau'n lân a thaclus. Gwelsom hefyd bod y wardiau'n lân a bod ymdrechion wedi eu gwneud i'w cadw'n daclus. Roedd yn amlwg bod y ddwy ward yn brin o le i storio a gwelsom offer a throlïau yn y coridorau a allai rwystro symudedd y cleifion o gwmpas y wardiau.

Yn Ysbyty Gorseinon, gwelsom nad oes llawer o le o amgylch gwelyau rhai cleifion. Mae ein canfyddiadau yn hyn o beth i'w gweld yn yr adran - *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*.

Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal a honno'n hygyrch, yn ddealladwy ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal. (Safon 4.2)

Roedd sylwadau gan gleifion ar y ddwy ward yn dangos bod yr aelodau o staff wedi trafod eu cyflyrau meddygol gyda hwy a'u helpu i'w deall. O'r rhai a ddychwelodd holiaduron wedi eu llenwi, roedd y mwyafrif yn nodi eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu gyda'r staff mewn iaith o'u dewis.

Dyweddodd rhai o'r cleifion y buom yn siarad â hwy nad oeddent yn sicr ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer gadael yr ysbyty yn y dyfodol. Dylai'r bwrdd iechyd felly edrych ar y ffordd y gellid gwella'r cyfathrebu rhwng yr aelodau o staff a'r cleifion yn hyn o beth.

Roedd gwybodaeth i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr wedi ei arddangos yn y ddwy ward. Gwelsom fod rhywfaint o'r wybodaeth angen ei diweddarau a dylai timau'r wardiau drefnu i adolygu'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol.

Gwelsom fod cofnodion meddygol y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal personau heb awdurdod rhag edrych arnynt. Roedd gan y ddwy ward *Fwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion*. Roedd y byrddau hyn yn cofnodi gwybodaeth ynglŷn ag anghenion gofal cleifion gan ddefnyddio cyfuniad o symbolau a thalfyriadau. Er bod ymdrechion wedi eu gwneud i ddiogelu hunaniaeth cleifion, roedd y byrddau hyn wedi eu lleoli mewn mannau lle gallai cleifion ac ymwelwyr eu gweld. Dylai'r bwrdd iechyd felly edrych ar sut y gellid diogelu gwybodaeth cleifion ymhellach.

Gofal Unigol

Rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut y maent yn gofalu amdanynt hwy eu hunain gan fod cynnal annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol. (Safon 6.1)

Gwelsom fod timau'r ward yn gweithio gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd aml-ddisgyblaethol i roi gofal unigol i gleifion yn unol â'r anghenion a aseswyd. Gellid adlewyrchu hyn yn well, fodd bynnag, gyda chofnodion gofal y cleifion.

Gwelsom fod yr aelodau o staff ar y ddwy ward wedi cwblhau ystod o asesiadau er mwyn adnabod anghenion gofal unigol y cleifion. Drwy sgysiau gyda'r staff ac arsylwadau, gwelsom fod cleifion yn rhan o'r penderfyniadau ynglŷn â'u hanghenion gofal dyddiol. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd gan y cleifion yn cadarnhau bod y staff yn eu cynorthwyo ac yn darparu gofal yn ôl yr angen. Gwelsom staff yn annog ac yn cefnogi cleifion i fod mor annibynnol â phosibl. Er enghraifft, gwelsom aelodau o staff yn annog cleifion i gerdded ac yn eu cynorthwyo i eistedd i fyny er mwyn iddynt allu bwyta ac yfed yn annibynnol. Gwelsom hefyd bod jygiau dŵr, cwpanau ac eitemau personol dyddiol wedi eu gosod o fewn cyrraedd y cleifion fel nad oedd yn rhaid iddynt ofyn am gymorth.

Er bod yr aelodau o staff ar y ddwy ward yn disgrifio dull unigol o ddarparu gofal i gleifion, nid oedd y sampl o gofnodion a welsom yn adlewyrchu hyn. Mae ein

canfyddiadau yn hyn o beth i'w gweld yn yr adran - *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*.

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. (Safon 6.2).

Gwelsom fod timau staff yn darparu gofal mewn ffordd sy'n hybu ac yn amddiffyn hawliau cleifion.

Ar y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy, gwelsom aelodau o staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion cyn belled ag y bo modd wrth ddarparu'r gofal. Er enghraifft, roedd drysau i ystafelloedd unigol ar gau a defnyddiwyd llenni o gwmpas gwelyau unigol wrth ddarparu gofal.

Er nad oedd yr un o'r ddwy ward yn gweithredu polisi ymweld agored, dywedwyd wrthym na fyddent yn gwrthod unrhyw gais am ymweliadau y tu allan i oriau ymweld. Roedd y trefniadau hyn yn caniatáu i gleifion gynnal cyswllt â'u teuluoedd a'u ffrindiau, yn unol â'u dymuniadau.

Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt gael ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu gan anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny a dangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3).

Roedd cleifion a'u cynrychiolwyr yn cael cyfleoedd i roi adborth ar eu profiad.

Gwelsom fod cardiau sylwadau ar gael yn rhwydd yn y ddau ysbyty. Gallai'r cleifion a/neu eu cynrychiolwyr eu llenwi cyn eu rhoi yn y blychau post dynodedig. Gwelsom ganlyniadau'r adborth wedi eu dangos yn amlwg yn y wardiau i'r staff a'r cleifion eu gweld. Roedd trefniadau anffurfiol, lle'r oedd cleifion yn rhoi adborth yn uniongyrchol i staff uwch y ward, hefyd wedi eu disgrifio. Yn Ysbyty Gorseinon, gallai cleifion a/neu eu cynrychiolwyr gyflwyno adborth yn electronig hefyd, drwy ddyfeisiadau tabled.

Mae gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith i ymdrin â phryderon (cwynion) a godir gan gleifion a/neu eu cynrychiolwyr. Roedd y trefniadau hyn yn cydymffurfio â *Gweithio i Wella*² ac roedd staff uwch y ward yn dangos dealltwriaeth dda o'r broses gywir i'w dilyn.

² *Gweithio i Wella* - y trefniadau sydd ar waith i drin ac ymateb i bryderon ynglŷn â gofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru.

Cyflwyno Gofal Diogel ac Effeithiol

Gwelsom fod timau'r ddwy ward yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom fod y lle yn brin yn Ward y Gorllewin ac yn achosi anawsterau i aelodau o staff sy'n defnyddio'r offer symud a thrin. Rydym wedi gofyn bod y bwrdd iechyd yn rhoi manylion inni ynglŷn â sut yr eir i'r afael â hyn.

Roedd offer arbenigol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio'n gymorth i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i atal cleifion rhag cwmpo.

Roedd y ddwy ward yn lân ac roedd trefniadau ar waith i atal croes-heintiad. Roedd ymdrechion wedi eu gwneud i gadw'r wardiau'n daclus ond roedd yn amlwg bod diffyg lle i storio offer y ward.

Gwelsom fod angen gwelliant mewn perthynas ag agweddau o reoli meddyginiaethau. Gwelsom hefyd bod angen gwelliant ar unwaith mewn cysylltiad â'r defnyd o fandiau arddwrn adnabod cleifion. Rhoddwyd gwybod i'r staff am ein canfyddiadau a gofyn i'r bwrdd iechyd ddarparu cynllun gwella ar unwaith yn unol â phroses sicrwydd uniongyrchol AGIC. Roedd cynllun y bwrdd iechyd yn rhoi digon o sicrwydd i AGIC bod camau wedi eu cymryd i hybu diogelwch y cleifion.

Gwelsom fod y cleifion wedi eu hasesu gan y staff fel bod eu hanghenion gofal yn cael eu hadnabod a bod y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hybu eu lles a'u diogelwch. Er bod y staff yn disgrifio gofal unigol oedd yn canolbwyntio ar y claf, nid oedd y cofnodion gofal a welsom yn dangos hyn yn llwyr.

Hunanofal

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu monitro a lle y bo'n bosibl, yn cael eu lleihau neu eu hatal. (Safon 2.1)

Yn gyffredinol, roedd trefniadau ar waith i gynnal diogelwch cleifion a staff yn y ddwy ardal yr ymwelwyd â hwy. Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried gwneud newidiadau yn Ward y Gorllewin er mwyn sicrhau bod modd i aelodau o staff gyflawni gweithdrefnau symud a thrin diogel.

Roedd yn ymddangos bod y ddwy ward yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac roedd systemau ar waith i adrodd ar beryglon amgylcheddol sy'n gofyn sylw ac atgyweirio. Yn Ward Llynfi, fodd bynnag, roedd un o'r toiledau angen ei

atgyweirio ac nid oedd y staff yn gwybod pa bryd y byddai hynny'n debygol o ddigwydd. Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau er mwyn sicrhau bod atgyweiriadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni heb oedi.

Roedd yn amlwg o'n harsylwadau yn y ddwy ward bod diffyg lle i storio offer. Golygai hyn fod y prif goridorau'n llawn trolis, offer symud a thrin ac offer monitro cleifion. Roedd hyn yn arbennig o broblemus yn y boreau pan fyddai'r rhan fwyaf o'r cleifion yn cael cymorth i ymolchi a gwisgo. Fodd bynnag, roedd gwelliant i'w weld yn Ward y Gorllewin o'i gymharu â'n harolygiad blaenorol yn 2014.

Gwelwyd bod yr aelodau o staff yn defnyddio'r offer symud a thrin er mwyn cynorthwyo cleifion i symud mewn modd diogel. Yn Ward y Gorllewin, er bod llai o annibendod, gwelsom fod y lle o amgylch rhai o'r gwelyau yn brin. Roedd yn ymddangos bod hyn yn achosi anhawster i aelodau o staff wrth roi sylw i gleifion, er enghraifft, wrth ddefnyddio offer symud a thrin ac wrth fynd i loceri'r cleifion i nôl meddyginiaeth ac eitemau dyddiol. Dywedodd yr aelodau o staff wrthym fod hyn wedi ei gydnabod a bod asesiad risg wedi ei gynnal gan y bwrdd iechyd. Roedd yr asesiad risg ysgrifenedig hwn yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer gwella ac mae AGIC angen diweddariad ar y cynnydd yn hyn o beth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion am y cynnydd a wneir ar ateb yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad ar ôl yr asesiad risg ym mis Ebrill 2015.

Gwelsom fod un o'r ciwbiclau yn Ward y Gorllewin heb ffenestr allanol. Yn hytrach, roedd y ffenestr wedi ei lleoli yn yr ystafell ymolchi. Roedd hyn yn golygu mai dim ond drwy adael drws yr ystafell ymolchi ar agor y gellid cael golau naturiol ac awyr iach yn y ciwbicl. Dylai'r bwrdd iechyd wneud gwelliannau i ganiatáu mwy o olau naturiol ac awyr iach i'r ciwbicl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd wneud gwelliannau i'r ciwbicl (a nodwyd) fel bod mwy o olau naturiol ac awyr iach ynddo.

Gwelsom fod yr asesiadau risg perthnasol wedi eu llenwi fel rhan o'r broses o dderbyn cleifion i'r ysbyty. Roedd cyfweiliadau gyda staff hefyd yn dangos eu bod yn asesu cleifion yn rheolaidd ac yn cynllunio gofal i hyrwyddo eu diogelwch a'u lles, yn unol â'u hamodau.

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi gwybodaeth ddiogelwch i gleifion, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gymryd camau priodol pan fo angen er

mwyn sicrhau gwasanaethau diogel. Er bod rhai aelodau o staff yn ymwybodol o'r wybodaeth, nid oedd rhai o'r aelodau o staff eraill y buom yn siarad â hwy yn ymwybodol ohonynt. Felly dylai'r bwrdd iechyd ystyried a oes angen camau pellach er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried a oes angen camau pellach er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth yr aelodau o staff o wybodaeth ddiogelwch i gleifion a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'w maes ymarfer clinigol.

Gwelsom fod angen gwelliant ar unwaith mewn cysylltiad â'r defnydd o fandiau arddwrn adnabod cleifion. Rydym wedi rhoi adroddiad o'n canfyddiadau yn hyn o beth o dan Safon 2.6 (rheoli meddyginiaeth).

Mae pobl yn cael eu helpu i ofalu am eu croen a gwneir pob ymdrech i atal pobl rhag datblygu briwiau pwysu a niwed i feinweoedd. (Safon 2.2).

Gwelsom fod yr aelodau o staff wedi asesu'r cleifion mewn perthynas â'u risg o ddatblygu briwiau pwysu ar eu croen. Roedd modd inni gadarnhau hefyd bod y staff yn cymryd camau priodol er mwyn atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu a niwed i feinweoedd.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion gofal y cleifion ar y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Gwelsom fod yr asesiadau risg ysgrifenedig wedi eu llenwi gydag offeryn asesu nyrsio cydnabyddedig. Gwelsom hefyd fod y cofnodion monitro wedi eu llenwi, a oedd yn dangos bod croen y cleifion wedi ei wirio'n rheolaidd am arwyddion o friwiau pwysu. Roedd offer rhyddhau pwysu[?]arbenigol ar gael ac yn cael ei ddefnyddio i helpu'r cleifion i osgoi datblygu niwed yn sgil pwysu[?].

Roedd y cofnodion monitro a welwyd yn dangos bod y cleifion wedi cael cymorth neu anogaeth i newid eu safle'n rheolaidd. Gwelsom staff hefyd yn cynorthwyo ac yn annog cleifion i symud o gwmpas y ward. Cydnabyddir bod y ddau fath hwn o ymyrraeth yn gymorth i gleifion beidio â datblygu briwiau pwysu.

Mae pobl yn cael eu hasesu o ran y risg o gwmpo a gwneir pob ymdrech i atal cwmpadau a lleihau niwed ac anabledd y gellir eu hosgoi. (Safon 2.3)

Nid edrychwyd yn fanwl ar y safon hon yn Ward y Gorllewin

Gwelsom fod ymdrechion wedi eu gwneud i ostwng nifer cwmpadau'r cleifion yn Ward Llynfi.

O fewn y sampl o gofnodion gofal cleifion a welwyd yn Ward Llynfi, roedd risg y cleifion o gwmpo wedi ei asesu. Fodd bynnag, nid oedd cynlluniau gofal ysgrifenedig wedi eu datblygu bob amser er mwyn helpu i roi arweiniad a chyfarwyddyd i staff ynglŷn â'r agwedd hon o ofal cleifion.

Roedd offer arbenigol megis matiau larwm ar gael ac yn cael ei ddefnyddio gyda'r nod o atal cwmpadau cleifion. Cadarnhaodd aelodau o staff bod Nyrs Atal Cwmpadau Arbenigol ar gael i roi cymorth a chynghor i dîm y ward mewn perthynas â rheoli atal cwmpadau'n effeithiol.

Mae angen i gamau i atal heintiau fod yn fusnes i bawb a rhaid iddynt fod yn rhan o arfer pob dydd ym maes gofal iechyd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal (Safon 2.4).

Ni edrychwyd ar y safon hon yn fanwl yn Ward y Gorllewin.

Roedd y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy yn lân. Roedd sylwadau'r cleifion a dderbyniwyd drwy holiaduron AGIC hefyd yn cadarnhau hynny. Roedd gan y ddwy ardal drefniadau ar waith ar gyfer lleihau croes-heintio.

Gwelsom fod offer amddiffynnol personol ar gael i'r aelodau o staff ac yn cael ei ddefnyddio, megis ffedogau a menig untro er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd cyfleusterau ymolchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom orsafoedd diheintio dwylo wedi eu gosod yn strategol ger mynedfeydd/allanfeydd ac o amgylch y wardiau i'r staff a'r ymwelwyr eu defnyddio.

Yn Ward Llynfi, gwelsom fod trefniadau ar waith i nyrsio cleifion ar wahân os byddai angen hynny er mwyn lleihau croes-heintio. Gwelsom hefyd bod gweithdrefnau ar waith er mwyn gwirio a glanhau'r offer er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio a lleihau lledaeniad haint. Roedd y staff yn cadarnhau bod cymorth a chynghor ar gael gan y tîm rheoli haint.

Cadarnhaodd y staff glanhau a oedd yn gweithio ar Ward Llyfno bod digon o offer glanhau digonol ar gael. Nid oedd y ward yn defnyddio llenni preifatrwydd untro. Fodd bynnag, disgrifiodd y staff y trefniadau ar gyfer newid a golchi'r llenni'n rheolaidd er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd yr ystafell ddydd yn Ward Llynfi wedi ei charpedu a dylid trefnu i roi llawr y gellir ei lanhau'n rhwydd ac yn effeithiol yn lle'r carped er mwyn lleihau croes-heintio.

Disgrifiwyd system o archwiliadau rheolaidd mewn cysylltiad â rheoli haint ar gyfer y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Cyflawnwyd yr archwiliadau hyn gyda'r nod o ganfod meysydd gwasanaeth i'w gwella er mwyn gallu gweithredu'n briodol pan fyddai angen.

Mae pobl yn cael eu helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran maethiad a hydradiad, er mwyn cael yr adferiad gorau posibl ar ôl afiechyd neu anaf. (Safon 2.5).

Gwelsom fod anghenion bwyta ac yfed y cleifion wedi eu hasesu. Gwelsom aelodau o staff yn cynorthwyo'r cleifion i fwyta ac yfed. Er bod cofnodion monitro wedi eu cynnal, gwelsom fod angen gwelliant yn y maes hwn.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion gofal i gleifion ar y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Ar y cyfan, gwelwyd fod anghenion y cleifion wedi eu hasesu er mwyn canfod y cymorth oedd ei angen arnynt i fwyta ac yfed. Er inni weld bod siartiau monitro bwyd yn cael eu defnyddio, roedd rhai o'r rhain heb eu llenwi a heb eu cyd-lofnodi gan y nyrs gyfrifol yn ôl yr angen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â'r ffordd y bydd yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith mewn cysylltiad â llenwi siartiau monitro bwyd a sicrhau bod siartiau o'r fath yn cael eu cyd-lofnodi gan nyrsys cofrestredig yn ôl yr angen.

Gwelsom fod pwysau cleifion yn cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn asesu a oeddent yn cael digon o faeth ac effeithiolrwydd y gofal.

Gwelsom brydau bwyd amser cinio'n cael eu gweini ar y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Gwelsom aelodau o staff yn helpu'r cleifion i eistedd i fyny i fwyta'u cinio a gwneud paratodau cyffredinol ar gyfer y pryd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cleifion yn cael cynnig y cyfle i ymolchi eu dwylo cyn bwyta'u cinio. Dylai'r timau staff sicrhau bod cleifion yn cael cynnig y cyfle i ymolchi eu dwylo yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau. Fel y crybwyllwyd eisoes, gwelwyd hefyd nad oedd llawer o le o amgylch rhai o'r gwelyau yn Ward

y Gorllewin. Roedd hyn yn golygu bod paratodau amser bwyd yn anodd i'r aelodau o staff.

Roedd y pryddau a welwyd yn ymddangos yn flasus ac yn ddeniadol. Dywedodd y cleifion a ddarparodd sylwadau wrthym fod y staff yn eu helpu yn ôl yr angen a dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn hapus gyda safon y bwyd. Gwelsom fod diet therapiwtig yn cael ei ddarparu i'r cleifion yr asesir fod arnynt eu hangen.

Roedd dŵr yfed ar gael yn rhwydd a gwelsom yr aelodau o staff yn cynorthwyo cleifion a oedd angen cymorth gyda'u diodydd. Dywedodd y cleifion wrthym fod eu jygiau dŵr yn cael eu newid yn rheolaidd fel bod ganddynt ddŵr ffres i'w yfed.

Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni a hynny ar yr amser cywir. (Safon 2.6).

Canfuwyd bod angen gwelliant mewn perthynas â rhai agweddau o reoli meddyginiaethau. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol â storio meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw'n oer a chadw cofnodion. Canfuwyd hefyd bod angen gwelliant ar unwaith mewn perthynas â'r defnydd cywir o fandiau arddwrn adnabod.

Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu cadw'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd meddyginiaethau a oedd angen eu cadw'n oer yn cael eu storio'n ddiogel mewn oergelloedd dan glo. Gwelsom fod tymheredd yr oergelloedd yn cael ei wirio a'i fonitro'n rheolaidd. Er inni weld hyn, fodd bynnag, gwelsom fod y tymheredd a gofnodwyd y tu allan i'r amrediad a argymhellir ar nifer o achlysuron. Siaradwyd gyda'r staff nyrsio ynglŷn â'r camau y byddid yn eu cymryd pe cofnodwyd tymheredd y tu allan i'r amrediad a argymhellir. Ni chawsom ein sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r drefn y dylid ei dilyn er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r ffordd y bydd yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau pe byddid yn canfod bod tymheredd yr oergelloedd a ddefnyddir i storio meddyginiaethau y tu allan i'r amrediad a argymhellir.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion meddyginiaeth a ddefnyddiwyd yn y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Yn gyffredinol roedd y rhain wedi eu llenwi'n gyflawn.

Fodd bynnag, fe welsom rai enghreifftiau lle'r oedd yn aneglur a oedd meddyginiaeth wedi ei rhoi ai peidio. Roedd rhai siartiau heb eu llofnodi er mwyn dangos bod meddyginiaeth wedi ei rhoi ac ni welsom ychwaith fod cod wedi ei ddefnyddio i egluro pam nad oedd wedi ei rhoi. Yn ogystal, roedd rhai presgripsiynau yn annarllenadwy.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi gwybodaeth i AGIC ynglŷn â'r ffordd y bydd yn sicrhau bod siartiau meddyginiaeth yn ddarllenadwy ac yn cael eu llenwi'n gyflawn yn y dyfodol.

Roedd Cyffuriau wedi'u Rheoli yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd cofnodion wedi eu cadw o swm y cyffuriau a gedwir ac a roddir ar y ddwy ward. Gwelsom yn Ward y Gorllewin fod angen rhoi rhywfaint o sylw i sicrhau bod tudalen y mynegai yn dangos y tudalennau cywir y cofnodwyd Cyffuriau wedi'u Rheoli arnynt. Pan ddygwyd hyn i sylw'r staff aethant ati i'w gywiro ar unwaith.

Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi yn Ward Llynfi a gweld arferion diogel a oedd yn sicrhau bod y claf cywir yn derbyn y feddyginiaeth gywir ar yr amser cywir.

Fel rhan o'n dull i edrych ar reolaeth meddyginiaeth, rhoddwyd ystyriaeth i'r defnydd a wneir o fandiau arddwrn cleifion. Maent yn ffordd ychwanegol o adnabod claf cyn rhoi gofal a thriniaeth, er enghraifft wrth roi meddyginiaeth neu cyn archwiliad pelydr X. Canfuwyd fod gan rai cleifion fandiau arddwrn a oedd naill ai'n wag neu wedi treulio i'r fath raddau nes bod y manylion yn annarllenadwy. Yn ogystal, roedd rhai cleifion nad oeddent yn gwisgo band arddwrn. Roedd y staff yn ein sicrhau ar lafar eu bod yn holi cwestiynau eraill er mwyn adnabod cleifion yn gywir a phendant. O wybod y risg bosibl i ddiogelwch cleifion, fodd bynnag, rhoesom wybod i'r staff uwch am ein canfyddiadau er mwyn i gamau gael eu cymryd ar unwaith. Cyn diwedd ein harolygiad, cawsom ein sicrhau bod y camau priodol wedi cael eu cymryd i hybu diogelwch cleifion ar y ddwy ward. Yn unol â phroses sicrwydd uniongyrchol AGIC, ysgrifennwyd at y bwrdd iechyd hefyd a gofyn am sicrwydd ysgrifenedig nad oedd ein canfyddiadau yn digwydd mewn wardiau nac unedau eraill yn ardal y bwrdd iechyd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith

Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas er mwyn bodloni ei hun bod yr aelodau o staff yn cadw at brosesau'r bwrdd iechyd ar gyfer cynhyrchu, rhoi a gwirio bandiau arddwrn adnabod cleifion.

Anfonwyd ymateb i AGIC gan y bwrdd iechyd o fewn yr amserlen y cytunwyd arni a chawsom ein sicrhau bod y camau priodol wedi eu cymryd i hyrwyddo diogelwch y cleifion yn hyn o beth.

Roedd Uwch-ymarferydd Nyrsio yn gweithio yn Ward Llynfi. Roedd yr aelodau o staff hyn yn rhoi cymorth clinigol a chyingor i dîm y ward ac maent yn gymwys i roi presgripsiwn i gleifion. Roedd un o'r Uwch-ymarferwyr Nyrsio yn dangos dealltwriaeth glir o bwysigrwydd cymodi meddyginiaeth a gwelsom system electronig ar waith a ddefnyddiwyd i gofnodi unrhyw newidiadau i feddyginiaeth y cleifion. Dywedwyd wrthym fod y system hon yn cael ei defnyddio i hwyluso cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysbyty a'r Meddygon Teulu yn yr ardal leol. Bwriad hyn oedd sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n ddiogel yn ystod arhosiad claf mewn ysbyty ac ar ôl gadael.

Nid oedd y trefniadau uchod ar waith yn Ward y Gorllewin. Dylai'r bwrdd iechyd, felly, edrych a fyddai defnyddio'r system hon yn fuddiol er mwyn cynorthwyo'r cyfathrebu rhwng Ward y Gorllewin a Meddygon Teulu yn yr ardal leol.

Mae'r gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu'n wynebu risg ar unrhyw adeg. (Safon 2.7)

Roedd trefniadau ar waith er mwyn amddiffyn cleifion agored i niwed ar y wardiau yr ymwelwyd â hwy. Roedd angen gwelliant mewn perthynas â dangos cydymffurfriad â deddfwriaeth sy'n ymwneud â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid³.

Roedd ein canfyddiadau, o edrych ar gofnodion y cleifion a siarad gyda'r aelodau o staff ar y ddwy ward, yn dangos bod aelodau o staff yn ymwybodol o broses ddiogelu'r bwrdd iechyd er mwyn amddiffyn lles a diogelwch oedolion agored i niwed sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.

Ar adeg ein harolygiad, eglurodd aelodau o staff y ward bod cleifion a oedd yn ddarostyngedig i awdurdodiadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Gwelsom waith papur a oedd yn dangos bod aelodau o staff wedi cychwyn y broses Diogelu

³ Y fframwaith diogelwch o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i bobl y mae angen amddifadu eu rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal er eu budd gorau i gael gofal neu driniaeth ac nad dynt yn gallu rhoi caniatâd i'r trefniadau a wneir ar gyfer eu gofal neu eu triniaeth.

Rhag Colli Rhyddid yn gywir. Roedd yn anodd symud drwy gyflwyniad y wybodaeth yng nghofnodion y cleifion a welwyd ac er bod aelodau o staff yn cadarnhau bod y camau dilynol angenrheidiol wedi eu cymryd, nid oedd hyn i'w weld yn llwyr yn y cofnodion a welwyd. Nid oedd modd inni felly fod yn sicr fod yr awdurdodiadau a oedd ar waith yn parhau i fod yn gyfreithiol ddilys.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod unrhyw awdurdodiadau Diogelu Rhag colli Rhyddid sydd ar waith yn gyfreithiol ddilys.

Mae gwasanaethau iechyd yn sicrhau eu bod yn caffael, yn defnyddio ac yn gwaredu dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. (Safon 2.9)

Gwelsom fod amrywiaeth o offer meddygol a nyrsio ar gael yn y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Roedd yr offer yn amlwg yn lân ac roedd yn ymddangos ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Gofal effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. (Safon 3.1)

Gwelsom fod offerynnau asesu cleifion cydnabyddedig ar gael ac yn cael eu defnyddio yn y ddwy ward.

Yn y sampl o gofnodion gofal cleifion; gwelsom nifer o offerynnau asesu cleifion wedi eu cwblhau a oedd yn seiliedig ar ganllawiau arfer gorau a mentrau cenedlaethol. Bwriad hyn oedd helpu'r aelodau o staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd yr enghreifftiau a welwyd yn cynnwys rhai ynglŷn â gofal y geg, atal briwiau pwyso a maethiad.

Er bod yr offerynnau hyn yn cael eu defnyddio, gwelwyd bod angen gwella'r cofnodion gofal er mwyn sicrhau eu bod yn dangos yn llawn y gofal a ddarperir gan y timau staff.

Ymgynghorwyr meddygol, a oedd yn ymweld â'r wardiau'n rheolaidd, oedd yn gyfrifol am ofal i gleifion ar y ddwy ward.

Disgrifiwyd gwahanol drefniadau ar gyfer cymorth meddygol yn y ddwy ward. Yn ward Llynfi, fe'i darparwyd gan dîm o Uwch-ymarferwyr Nyrsio a chofrestrydd meddygol ymweliadol o'r ysbyty cyffredinol dosbarth lleol. Yn Ward y Gorllewin, darparwyd cymorth meddygol (dydd Llun - dydd Gwener) gan dîm meddygol a oedd yn cynnwys arbenigwr cysylltiol a meddyg graddfa staff. Hefyd darparwyd naw sesiwn drwy bartneriaeth rhwng Meddyg Teulu a'r ward. Ar benwythnosau a thu allan i oriau arferol, roedd cymorth meddygol ar gael drwy gofrestrydd yn yr ysbyty cyffredinol dosbarth lleol yn ôl y galw.

Canfuwyd y gellid gwella'r trefniadau yn Ward y Gorllewin drwy drafodaethau gyda'r staff uwch, gan iddynt ddisgrifio cael anhawster yn cael cymorth a chynngor meddygol. Dylai'r bwrdd iechyd, felly, edrych eto ar y model ar gyfer cymorth meddygol yn Ward y Gorllewin a gwneud newidiadau fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod cymorth a chynngor meddygol ar gael mewn modd effeithiol ac amserol. Bwriad hyn yw darparu diogelwch a lles cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd edrych eto ar y model presennol ar gyfer cymorth meddygol yn Ward y Gorllewin a gwneud newidiadau fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod modd i'r tîm staff gael cymorth a chynngor meddygol mewn modd effeithiol ac amserol.

Wrth gyfathrebu gyda phobl mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2)

Roedd gwybodaeth i gleifion a'u hymwelwyr wedi ei harddangos yn y wardiau yr ymwelwyd â hwy. Roedd arwyddion yn cyfeirio at ac o fewn y wardiau yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Gwelsom fod arwyddion ystyriol o ddementia wedi eu harddangos er mwyn dangos y toiledau, yr ystafell ymolchi a'r ardaloedd o fewn y wardiau.

Roedd gwybodaeth ynglŷn â'r ddwy ward hefyd ar gael ar wefan y bwrdd iechyd. Roedd angen diweddarau'r wybodaeth, fodd bynnag, gan fod rhywfaint o'r wybodaeth ynglŷn ag amseroedd ymweld â'r cyfleusterau presennol yn anghywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ar ei wefan yn gywir.

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol (Safon 3.5)

Yn gyffredinol, gwelsom fod angen gwella'r drefn o gadw cofnodion (gofal cleifion). Yn benodol, roedd angen iddynt adlewyrchu'r gofal a ddarparwyd i gleifion a dangos bod gofal wedi ei werthuso.

Ystyriwyd sampl o gofnodion cleifion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Roedd cofnodion ar wahân yn cael eu defnyddio gan staff nyrsio, staff meddygol ac aelodau amlddisgyblaethol eraill o'r tîm.

Er inni weld bod asesiadau cynhwysfawr wedi eu cwblhau er mwyn canfod anghenion gofal cleifion, gwelsom nad oedd yr asesiadau hyn, yn aml, wedi eu defnyddio i ddatblygu cynlluniau gofal unigol. Yn hytrach, roedd amrywiaeth o gynlluniau craidd wedi eu hargraffu ymlaen llaw yn cael eu defnyddio a oedd yn disgrifio camau gofal cyffredinol. Nid oedd y cynlluniau'n adlewyrchu'r gofal unigol yr oedd y staff yn disgrifio oedd yn cael ei ddarparu. Yn ogystal, nid oedd y cynlluniau gofal yn dangos pa mor effeithiol oedd y gofal.

Fe welsom un enghraifft lle'r oedd cynllun gofal claf yn cyfeirio'n anghywir at leoliad briw. Ar gyfer yr un claf, gwelwyd nad oedd cynllun wedi ei ysgrifennu ar gyfer gofal y geg, er bod hyn wedi ei nodi yn sgil yr asesiad. Hysbyswyd y staff o'n canfyddiadau er mwyn i hyn gael ei gywiro ac er mwyn iddynt ddeall bod angen cadw cofnodion gofal cywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cofnodion gofal cleifion yn dangos anghenion gofal cleifion, y gofal a ddarparwyd gan y timau staff ac effeithiolrwydd y gofal a ddarparwyd yn llawn ac yn gywir.

Roedd cofnodion ar gyfer monitro arwyddion bywyd (megis monitro pwls a phwysedd gwaed) a gwiriadau croen wedi eu cwblhau'n rheolaidd ac yn gyfamserol.

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio fel nad oedd unrhyw un heb awdurdod yn eu gweld.

Gofal amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir (Safon 5.1).

Gwelsom aelodau o staff yn ymorol am anghenion y cleifion ac yn ateb eu ceisiadau am gymorth mewn modd amserol. Roedd sylwadau a wnaed gan y cleifion, fodd bynnag, yn gymysg mewn perthynas ag amseroldeb y staff wrth ymateb i'r ceisiadau.

Er i bob claf, a gyflwynodd sylwadau, ar Ward Llynfi ddweud bod aelodau o staff yn ymateb i'w ceisiadau'n brydlon, dywedodd rhai cleifion ar Ward y Gorllewin wrthym fod yn rhaid iddynt aros, cyn mynd ymlaen i ddweud mai'r rheswm am hyn oedd bod yr aelodau o staff yn brysur. Dylai'r bwrdd iechyd edrych ar y rhesymau fod hyn yn digwydd a gweithredu fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod modd ymateb i geisiadau cleifion yn brydlon.

Ansawdd y Rheolaeth a'r Arweinyddiaeth

Gweithredwyd strwythur rheoli gyda llinellau dirprwyo ac adrodd yn y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Mynegodd y staff uwch bod trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno cyn bo hir i wasanaethau ysbytai cymunedol fel rhan o newidiadau rheoli ehangach o fewn y bwrdd iechyd. Roedd trafodaethau gyda'r staff uwch yn dangos eu bod yn teimlo y byddai'r trefniadau'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y gwasanaethau a ddarperir yn y ddau ysbyty. O ystyried y gwahaniaethau rhwng y ddwy ward, rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd ail-edrych ar y trefniadau rheoli yn Ward y Gorllewin er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol.

Gwelsom dimau staff cyfeillgar ond proffesiynol a oedd yn dangos ymroddiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Gallai'r staff ddisgrifio'u swyddi ac roedd yn ymddangos eu bod yn wybodus ynglŷn ag anghenion gofal y cleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.

Cadarnhaodd yr aelodau o staff eu bod yn cael manteisio ar hyfforddiant a bod hynny wedi bod yn gymorth iddynt fynd i'r afael â'u swyddi. Gwelsom fod angen rhoi mwy o gymorth i reolwyr y wardiau fel bod modd cynnal arfarniadau staff.

Llywodraeth, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy. (Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2 Tudalen 8)

Ar adeg ein harolygiad roedd strwythur rheoli ar waith ar gyfer y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy gyda llinellau atebolrwydd ac adrodd clir. Dywedodd yr aelodau o staff uwch fod newidiadau wedi eu cytuno gan y bwrdd iechyd a bod trefniadau newydd ar fin cael eu cyflwyno.

Eglurodd y staff uwch fod trefniadau rheoli newydd ar gyfer y gwasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol o 1 Hydref 2016. Roedd hyn yn rhan o newidiadau ehangach i'r strwythur rheoli ar draws y bwrdd iechyd a oedd wedi eu rhoi ar waith dros y flwyddyn flaenorol. Roedd rhai trefniadau rheoli interim ar waith a gwelsom fod aelodau o staff uwch wedi gwneud ymdrech i roi cefnogaeth i'r timau staff yn ystod y cyfnod interim hwn.

Roedd modd i'r aelodau o staff uwch y siaradwyd â hwy ddisgrifio'r llwybrau adrodd ac atebolrwydd yn y strwythur presennol a'r strwythur newydd.

Roedd yn amlwg o'n sgysiau gyda'r staff uwch bod darpariaeth y gwasanaeth yn y ddau ysbyty wedi newid ers i'r ddau ysbyty agor. Roedd cleifion gydag anghenion gofal mwy cymhleth a pharhaus bellach yn derbyn gofal yn y ddwy ward. Roedd hyn yn golygu bod angen newid y modelau darparu gofal. Dangosodd y trafodaethau gyda'r staff uwch eu bod yn teimlo y byddai'r trefniadau newydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y gwasanaethau gofal a ddarperir yn y ddau ysbyty.

Disgrifiodd y staff uwch system o archwiliadau clinigol rheolaidd fel rhan o'r gweithgaredd monitro ansawdd cyffredinol. Dywedwyd wrthym fod canlyniadau archwiliadau'n cael eu darparu i staff uwch er mwyn iddynt gael adnabod a mynd i'r afael â meysydd y mae angen eu gwella.

Yn ystod ein harolygiad, gwahoddwyd yr aelodau o staff i lenwi holiadur AGIC. Drwy ein holiadur, gofynnwyd i aelodau o staff nodi eu sylwadau ar amrywiaeth o bynciau cysylltiedig â'u gwaith. Dychwelwyd cyfanswm o wyth holiadur wedi eu llenwi.

Ar y cyfan, nododd yr aelodau o staff a lenwodd ac a ddychwelodd yr holiadur fod eu rheolwyr uniongyrchol yn gefnogol ac wedi darparu adborth clir am eu gwaith. Dywedodd yr aelodau o staff i gyd bod eu rheolwyr yn annog gwaith tîm. Ar y cyfan, nododd yr aelodau o staff hefyd bod modd iddynt wneud awgrymiadau er mwyn gwella gwaith eu timau. Roedd y sylwadau'n fwy cymysg mewn perthynas â newid, gyda thri (allan o'r saith ymatebwr yr oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol iddynt) yn nodi nad oeddent yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wnaed a oedd yn effeithio ar eu meysydd gwaith. Efallai yr hoffai'r bwrdd iechyd edrych ar y rhesymau am hyn er mwyn sefydlu sut y gellir gwneud gwelliannau.

Roedd y sylwadau a wnaed yn yr holiaduron a lenwyd yn dangos bod aelodau o staff yn ymwybodol o bwy oedd eu huwch-reolwyr ac yn teimlo bod cyfathrebu effeithiol rhwng uwch-reolwyr a staff.

Roedd maint a gosodiad y wardiau, nifer y cleifion y mae lle iddynt a'r trefniadau ar gyfer cymorth clinigol ar gyfer timau'r ward yn amrywio'n sylweddol rhwng y ddwy ward yr ymwelwyd â hwy. Roedd y strwythur rheoli'n debyg ar y ddwy ward. Disgrifiodd y staff uwch fod gan y ddau reolwr ward, er bod gwahaniaethau, gyfrifoldebau tebyg mewn perthynas â maint a chymlethdod y manau yr oeddent yn eu rheoli. Yn benodol, roedd rheolwr Ward y Gorllewin yn gyfrifol am y ward 44 gwely yn unig; roedd gan y rheolwr ward arall gyfrifoldeb am y ward lai, Llynfi, gyda 22 gwely ac yn gwneud gwaith rheoli ad hoc ar gyfer yr Ysbyty Dydd yn absenoldeb y rheolwr.

O ystyried mai rheoli'r wardiau oedd prif faes cyfrifoldeb y ddau reolwr ward, bod lle i lawer mwy o gleifion yn Ward y Gorllewin a'r gwahanol drefniadau ar

gyfer manteisio ar gyngor a chymorth meddygol ar y ddwy ward, dylai'r bwrdd iechyd edrych eto ar y trefniadau rheoli ar Ward y Gorllewin. Bwriad hynny fyddai ceisio canfod pa un a yw'r trefniadau rheoli presennol yn ddigonol a darparu cymorth rheoli ychwanegol fel y bo'n briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd edrych eto ar drefniadau rheoli Ward y Gorllewin a gwneud trefniadau addas er mwyn darparu cymorth rheoli ychwanegol fel y bo'n briodol.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen. (Safon 7.1).

Roedd y timau staff a oedd yn gweithio ar y ddwy ward yn ymddangos yn gyfeillgar, ond yn broffesiynol, ac yn dangos ymroddiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd yn ymddangos bod niferoedd y staff a'u cyfuniad o sgiliau'n briodol er mwyn ateb anghenion y cleifion ar y ddwy ward ar amser ein harolygiad.

Gallai'r aelodau o staff y siaradwyd â hwy ddisgrifio anghenion gofal cleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt a'r ffordd yr oedd yr anghenion hynny'n cael eu rheoli.

Roedd pob aelod o staff a ddychwelodd holiaduron yn nodi eu bod wedi mynychu hyfforddiant ar bynciau megis; iechyd a diogelwch, diogelwch tân a rheoli haint. Nododd y staff eu bod hefyd wedi mynychu hyfforddiant perthnasol a oedd yn berthnasol i'r gofal arbenigol a ddarparwyd yn eu maes gwaith. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod aelodau o staff yn teimlo bod yr hyfforddiant yr oeddent wedi ei fynychu wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol.

Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan reolwyr y wardiau yn dangos eu bod yn monitro anghenion hyfforddiant staff. Bwriad hyn oedd gwneud trefniadau er mwyn sicrhau eu bod wedi mynychu'r hyfforddiant diweddaraf ar gyfer eu gwaith. Dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant gorfodol yn digwydd drwy E-ddysgu a bod trefniadau ar waith i wella'r cymorth a roddwyd i staff er mwyn ei ddilyn.

Cadarnhaodd rheolwyr y wardiau bod system yn bodoli ar gyfer cynnal arfarniadau staff blynyddol. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd gan reolwyr y wardiau yn dangos nad oedd pob aelod o staff wedi cael arfarniad o'u gwaith o

fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys pwysau gwaith oherwydd swyddi gwag a salwch. Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi i reolwyr wardiau fel bod modd cynnal arfarniadau staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu i reolwyr y wardiau fel bod modd cynnal arfarniadau staff.

6. Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â phrif ganfyddiadau'r arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd nodi'n glir pa bryd ac yn lle y rhoddir sylw i'r canfyddiadau, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn systematig ar draws adrannau/unedau eraill o fewn y sefydliad ehangach.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd i ymateb i'r materion a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi digon o sicrwydd i AGIC ynglŷn â'r materion oddi mewn iddo.

Pan fo camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn parhau i fod angen eu cyflawni a/neu ar eu canol, dylai'r bwrdd iechyd roi diweddariadau i AGIC er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael sylw.

Bydd cynllun gwella'r bwrdd iechyd, pan gytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A

Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Maesteg ac Ysbyty Gorseinon

Ward/ Adran: Ward Llynfi a Ward y Gorllewin

Dyddiad Arolygiad: 27 a 28 Medi 2016

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
-	Dim angen cynllun gwella				
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
14	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion am y cynnydd sy'n gysylltiedig ag ateb yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad ar ôl yr asesiad risg ym mis Ebrill 2015.	2.1	Mae cynllun a chapasiti Ward y Gorllewin yn cael sylw fel rhan o gynllun moderneiddio'r ysbyty. Bydd hyn yn edrych ar argymhellion ar gyfer y manau lle mae'r gwelyau a storio offer. Mae manau storio wedi dechrau cael eu defnyddio ar ôl asesiad	PC a CS ODU	Ionawr 2017

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			risg 2015.		
14	Dylai'r bwrdd iechyd wella'r ciwbicl (a nodwyd) er mwyn sicrhau bod mwy o olau naturiol ac awyr iach.	2.1 a 4.1	Cysylltwyd â'r adran Ystadau er mwyn gofyn bod ffenestr yn cael ei gosod yn y ciwbicl hwn er mwyn sicrhau golau naturiol ac awyr iach. Mae'r adran Ystadau wedi asesu'r cais ac wedi cytuno i osod ffenestri ar lefel uchel. Disgwylir y bydd y gwaith yn dechrau yn ystod y mis yma.	Nyrs Arwain	Ionawr 2017
15	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried a oes angen cymryd camau pellach er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth aelodau o staff o'r canllawiau diogelwch cleifion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i faes eu hymarfer clinigol.	2.1	Caiff bob rhybudd diogelwch bellach ei gyfathrebu i'r adrannau drwy DATIX a gweithredir arno. Dangosir y rhybuddion hyn ar hysbysfwrdd y staff. Bydd rhybuddion diogelwch yn eitem agenda mewn cyfarfodydd y staff.	Rheolwyr Ward	Rhagfyr 2016
17	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â'r ffordd y bydd yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer llenwi siartiau monitro bwyd er mwyn sicrhau bod y siartiau'n cael eu cydarwyddo gan nyrsys cofrestredig yn ôl yr angen.	2.5	Bydd siartiau'n cael eu cyd-lofnodi gan y nyrs cofrestredig. Bydd rheolwr y ward yn archwilio'r weithred hon yn wythnosol er mwyn sicrhau bod aelodau o staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran sicrhau bod	Rheolwyr Ward	Rhagfyr 2016

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			cleifion yn bwyta ac yfed digon.		
18	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod aelodau o staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau pe byddant yn canfod bod tymheredd yr oergelloedd y tu allan i'r amrediad a argymhellir.	2.6	Bydd rheolwyr ward yn cysylltu â'r fferyllfa i ddatblygu canllaw uwchgyfeirio ar gyfer y camau sy'n angenrheidiol pan fo'r tymheredd y tu allan i'r paramedrau a argymhellir.	Rheolwyr y Ward a chydweithwyr yn y fferyllfa	Rhagfyr 2016
19	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi gwybodaeth i AGIC ynglŷn â'r ffordd y bydd yn sicrhau bod siartiau meddyginiaeth yn ddarllenadwy ac yn cael eu llenwi'n llawn yn y dyfodol.	2.6	Bydd siartiau cyffuriau'n cael eu harchwilio gan reolwyr ward. Bydd sesiynau diweddarau gan arweinwyr clinigol yn cael eu datblygu ynglŷn â llenwi cofnodion meddyginiaeth.	Arweinwyr Clinigol a Rheolwyr Ward	Ionawr 2017
19	<u>Angen ei wella ar unwaith</u> Rhaid i'r bwrdd iechyd weithredu'n addas er mwyn bodloni ei hun bod yr aelodau o staff perthnasol yn cadw at brosesau'r bwrdd iechyd ar gyfer paratoi, rhoi a gwirio bandiau arddwrn adnabod cleifion	2.1 a 2.6	Mae diweddariadau wedi eu cynnal ar wardiau er mwyn sicrhau bod aelodau o staff nyrsio yn gyfarwydd â phroses y Bwrdd Iechyd ar gyfer paratoi, rhoi a gwirio bandiau arddwrn adnabod cleifion. Cynhelir archwiliad bob wythnos er mwyn bwydo i'r metrics nyrsio.	Pob rhan o'r Bwrdd Iechyd	ar unwaith
20	Pan fo Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar waith, rhaid i'r bwrdd	2.7	Mae rheolwyr ward yn datblygu taenlen er mwyn eu galluogi i	Rheolwyr Ward	Rhagfyr 2016

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	iechyd wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau eu bod yn gyfreithiol ddilys.		olrhain ceisiadau ac awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac awdurdodiadau er mwyn sicrhau eu bod ar waith ac yn ddilys. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r agenda safonol yn y fforwm arweinyddiaeth.		
22	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r model presennol ar gyfer gwasanaeth meddygol yn Ward y Gorllewin a gwneud newidiadau fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod modd i dîm y staff fanteisio ar gyngor a chymorth meddygol mewn modd effeithiol ac amserol.	3.1 a 5.1	Mae'r gwasanaeth meddygol ar gyfer Ward y Gorllewin yn rhan o gynllun moderneiddio'r ysbyty. Mae sgysiau a datblygiadau'n digwydd er mwyn sicrhau bod anghenion meddygol ein cleifion yn cael eu blaenoriaethu. Mae gwasanaeth meddygol wedi ei drefnu ar y ward bob dydd ar hyn o bryd gan feddygon teulu, arbenigwyr cysylltiol a meddygon graddfa staff.	PC a CS ODU	Mawrth 2017
22	Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ar ei wefan yn gywir.	3.2	Mae Prif Nyrsys Ward yn cysylltu â'r adran gyfathrebu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael ar y fewnrwyd wedi ei	Rheolwyr Ward	Rhagfyr 2016

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Camau Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			diweddarau.		
23	Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cofnodion gofal cleifion yn dangos eu hanghenion gofal, y gofal a ddarperir gan dîm y staff ac effeithiolrwydd y gofal a ddarperir yn llawn ac yn gywir.	3.5	Mae cynlluniau gofal craidd ar gael i'r staff i gyd gan y bwrdd iechyd ar COIN. Fel rhan o gynllun moderneiddio'r ysbytai, mae'r gwaith o roi sylw i asesu cleifion a chynllunio gofal er mwyn cyflwyno gofal unigol sy'n ateb anghenion yr unigolyn yn parhau.	Nyrs Arwain	Ionawr 2017
Ansawdd yr Arweinyddiaeth a'r Rheolaeth					
26	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau rheoli yn Ward y Gorllewin a gwneud trefniadau addas i ddarparu mwy o gymorth gan y rheolwyr fel y bo'n briodol.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Mae deall anghenion arweinyddiaeth ward y Gorllewin yn rhan o'r cynlluniau moderneiddio ar gyfer yr ysbyty.	PC a CS ODU	Chwefror 2017
27	Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi i reolwyr ward fel bod modd cynnal arfarniadau staff.	7.1	Mae Nyrs Arwain wedi ei phenodi sydd â chyfrifoldeb dros Ysbytai Gorseinon a Maesteg. Mae arfarniadau staff wedi eu cynllunio ac mae rhaglen wedi ei datblygu er mwyn sicrhau cydymffurfiad.	Nyrs Arwain	Ionawr 2017

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (argraffu):Anthony Porter Heulwen Howells.....

Teitl: Nyrs Arwain..... Uwch-fatron.....

Dyddiad:09/11/2016.....